YARDLEY, EDWARD (1698 - 1769), archddiacon Ceredigion

Enw: Edward Yardley
Dyddiad geni: 1698
Dyddiad marw: 1769
Rhiant: Elizabeth Yardley
Rhiant: Robert Yardley
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: archddiacon Ceredigion
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: William Llewelyn Davies

Er nad oedd yn Gymro y mae Yardley yn haeddu nodyn byr oherwydd y gwaith a wnaeth ar gofysgrifau eglwys gadeiriol Tyddewi ac ysgrifennu ffrwyth ei ymchwil yn ei lawysgrif a alwodd yn ' Menevia Sacra ' (yn Ll.G.C. yn awr). Rhydd ef ei hun fanylion am ei yrfa yn y llawysgrif - gweler tt. 230-2 yn *Menevia Sacra ...* gol. gan Francis Green (dros y Cambrian Archaeological Association), 1927. Ganed ef yn Llundain, 28 Mawrth 1698, mab Robert ac Elizabeth Yardley. Cafodd ei addysg yn y Merchant Taylors School a Choleg S. Ioan, Caergrawnt (B.A. 1717/18, M.A. 1721, B.D. 1729). Wedi cael ei ordeinio (diacon 1721, offeiriad 1722) bu'n gwasnaethu yn Llundain hyd ei ddewis i reithoraeth (segur-swydd) S. Florence, Sir Benfro (4 Mawrth 1731/2).

Cafodd ei ethol, 5 Tachwedd 1731, yn bregethwr yng nghapel S. Mihangel (hen gapel ysgol Highgate a oedd yn gapel anwes ym mhlwy S. Fair, Hornsey), swydd a ddaliodd dros weddill ei oes. Daeth wedyn yn archddiacon Ceredigion (26 Mai 1739). Dywed ef ei hun iddo yn ystod cyfnod o naw mis yng Nghymru (1739) ddechrau astudio cofysgrifau a hynafiaethau eglwys gadeiriol Tyddewi; rhydd inni hefyd deitlau saith llyfr a gyhoeddodd ar faterion eraill.

Bu farw 26 Rhagfyr 1769 yn 71 oed. Pan chwalwyd y capel symudwyd y cerrig beddau i eglwys S. Fair.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Menevia Sacra. Arch. Camb. (1927), by E. Yardley, ed. by Francis Green for the Cambrian Archaeological Association, 1927

Gwybodaeth gan y Parch. D. H. Matthews allan o lyfryn *Old Highgate The story of a London village and a Public School* (Llundain 1949) yn dyfynnu F. T. Cansick, *A collection of curious and interesting epitaphs...* (1872-75)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 34334038

Wikidata: Q20746773

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu